27AIN O FAWRTH

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



# Pasg Hapus

**Pasg hapus i bawb!**

Hoffem ddymuno Pasg Hapus i holl deuluoedd yr ysgol. Mae wedi bod yn dymor hynod o brysur gyda nosweithiau rhieni, sesiynau dathlu dysgu, cystadlaethau rygbi a phêl-droed,yr Urdd, yn ogystal â chystadlaethau dawnsio.Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus, ac i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Gobeithiwn y caiff holl deulu Treganna gyfle i ymlacio a mwynhau dros y gwyliau!

**Ymweliad Blwyddyn 4 â'r Theatr**

Yr wythnos hon cafodd disgyblion Blwyddyn 4 y cyfle i ymweld â theatr y Memo yn y Barri i wylio perfformiad arbennig o "Gwen Yr Arth Wen". Roedd y sioe yn llawn dawns a cherddoriaeth, a chafodd y disgyblion amser wrth eu bodd! Diolch i'r staff wnaeth drefnu'r ymweliad.

**Cystadleuaeth pêl-droed**

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed bechgyn Blwyddyn 5 a 6 am ennill twrnamaint Caerdydd a'r Fro yr wythnos hon. Roedd y safon yn anhygoel, ac roedd perfformiad y bechgyn yn glod i'r ysgol. Bydd y tîm nawr yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn nhwrnamaint Cymru yn y Drenewydd ym mis Mai.

## Calendr

**Ysgol ar agor i bawb. Dydd Llun 13/4/26**

# Eisteddfod Sir yr Urdd

Llongyfarchiadau enfawr i bawb ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Rydym yn hynod o falch o'r holl unigolion, y deuawdau a'r grwpiau fydd yn cynrychioli Ysgol Gymraeg Treganna, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fôn, dros wyliau hanner tymor Sulgwyn.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol am eu gwaith caled wrth baratoi a hyfforddi'r disgyblion ar gyfer y cystadlaethau.

Fe fydd yr ysgol yn prynu tocynnau mynediad i'r Eisteddfod ar gyfer pob plentyn sy'n cystadlu. Os hoffech chithau fel rhieni archebu tocynnau ychwanegol, dyma'r ddolen archebu:

https://urddeisteddfod.ticketsrv.co.uk/tickets/AnyOneDay

Mae'r tocynnau ar hyn o bryd ar bris gostyngol.

Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth isod ynghylch trefn y cystadlaethau yn yr Eisteddfod.Fe wnawn rannu'r amserlen swyddogol pan fyddwn yn ei dderbyn.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus.

| Dyddiad/Date | Cystadleuaeth/ Competition |
|---|---|
| Mawrth/ Tuesday 26.5.26 | Cogurdd |
| Iau/ Thursday 28.5.26 | Cerddoriaeth Greadigol/ Creative Music |
| Iau/ Thursday 28.5.26 | Dawnsio Gwerin Bl 5 a 6/ Folk Dancing Y 5 and 6 |
| Iau/ Thursday 28.5.26 | Cerdd Dant Bl 3 a 4/ Y 3 a 4 |
| Iau/ Thursday 28.5.26 | Llefaru Bl 3 a 4/ Recitation Y3 and 4 |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Cân Actol |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Ymgom |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Unawd Bl 5 a 6/ Solo Y 5 and 6 |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Alaw Werin Bl6 ac iau/ Folk singing Y6 and under |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Deuawd Bl 6 ac iau/ Duet Y6 and under |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Deuawd Cerdd Dant Bl 6 ac iau/ Cerdd Dant duet Y6 and under |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Parti Cerdd Dant |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Parti Unsain |
| Gwener/ Friday 29.5.26 | Parti Llefaru |

# Dyddiadau'r flwyddyn

Neges i'ch atgoffa bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun,y 13ain o Ebrill.

| **Diwrnodau HMS 2025-2026/ Inset days 2025-2026** |
|---|
| 1/9/25 |
| 2/9/25 |
| 24/10/25 |
| 5/1/26 |
| 22/5/26 |
| 20/7/26 |

**Dyddiadau ysgol y flwyddyn 2025-2026/ School term dates 2025-2026**

| | Cychwyn/ Start | Hanner tymor/ Half term | Gorffen/ End |
|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref/ Autumn term | Dydd Llun/ Monday 1/9/25 | 27/10/25 - 31/10/25 | Dydd Gwener/ Friday 19/12/25 |
| Tymor y Gwanwyn/ Spring term | Dydd Llun/ Monday 5/1/26 | 16/2/26 - 20/2/26 | Dydd Gwener/ Friday 27/3/26 |
| Tymor yr haf/ Summer term | Dydd Llun/Monday 13/4/26 | 25/5/26 – 29/5/26 | Dydd Llun/ Monday 20/7/26 |

# Patrwm Iaith yr Wythnos ar ôl y gwyliau

**Patrwm iaith wythnos nesaf**

Bydd hi'n (tywydd)?

Ydy, mae hi'n…

Nac ydy, mae hi'n …

**Her**

Prynhawn yma, rydw i'n meddwl bod hi'n mynd…

Mae'n debygol y bydd hi'n …

**Testun trafod yr wythnos**

Byddwn i'n hoffi adeiladu…

**Cân yr wythnos**

Gwalia-Gwilym

**Idiom yr wythnos**

Cael siom ar yr ochr orau